Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan, Caerdydd, CF23 9BS
***Ffôn:* 02920 490582**
***E-bost:* aluntudur@btinternet.com**

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel, Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UE
***Ffôn:* 01766 513138**
***E-bost:* IwanLlew@aol.com**

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
***Ffôn:* 01267 232577 / 0781 751 9039**
***E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk**

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe ABERTAWE SA7 0AJ
***Ffôn:* 01792 795888**
***E-bost:* undeb@annibynwyr.org**

Dalier Sylw!
Cyhoeddir y Pedair Tudalen Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys y Pedair Tudalen.

'Y FFORDD' YN TANIO DYCHYMYG POBL Y DE

Er gwaetha'r tywydd gwlyb a garw, fe wnaeth bron i 100 o Annibynwyr o bob rhan o dde Cymru ymgynnull yng nghapel Bethania, Tymbl ger Llanelli ar gyfer lansio cynllun Y Ffordd yn y de.
Roedd y cyflwyniad gan Dr Noel Davies ac aelodau o staff yr Undeb, mewn geiriau a thrwy gyfrwng fideo, yn esbonio cynnwys a bwriad Y Ffordd mewn modd bywiog a gafaelgar. Fel y cyhoeddwyd yn y gogledd y wythnos flaenorol, mae'r Ffordd yn gynllun pedair blynedd sy'n annog trafodaeth ffres ac eang ar natur y ffydd Gristnogol. Dyma'r strategaeth gyntaf o'i bath gan enwad Cristnogol yng Nghymru, ac fe gafodd y lansiad yng Nghapel Coffa Cyffordd Llandudno sylw eang ar radio a theledu.

Cyfryngau Cyfoes

Llywyddwyd y cyfarfod ym Methania gan Dr Geraint Tudur, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb. Cafwyd darlleniad gan Alun Lenny, Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Wasg, a gweddi gan y Parchg Gareth Morgan Jones, gweinidog Bethania.

Cafodd y gynulleidfa gyfle i gael blas o'r fideos newydd, a bu Rhodri Darcy, y Swyddog Hyrwyddo a Chyfathrebu, yn esbonio ychydig o'r broses dechnegol. Bu'r Parchg Robin Samuel, Swyddog Cyswllt ac Adnoddau'r Undeb yn y de, yn cyflwyno'r amrywiaeth o ddeunydd newydd sydd ar gael ar gyfer eglwysi a grwpiau trafod. Cafwyd neges trwy gyfrwng fideo gan y Parchg Aled Jones o Goleg yr Annibynwyr yn esbonio rôl y coleg yn y cynllun, cyn i 'r Parchg Jill-Hailey Harries, darpar-lywydd yr Undeb, rhoi gair o anogaeth i'r eglwysi i fwrw ati gyda'r *Ffordd*.



Tanio Dychymyg

Ar ddiwedd y cyfarfod, roedd hi'n amlwg bod dychymig y gynulleidfa wedi cael ei danio wrth i bobl giwio i gael eu pecyn. Tra roedd pobl yn dal i drafod ymhlith ei gilydd dros gwpaned o de ar ddiwedd y noson, fe'i holwyd gan Alun Lenny gyda Rhodri Darcy yn gweithio'r camera ar gyfer sianel Annibynwyr. Cymru. Roedd yr ymateb yn frwd iawn, ond roedd pobl hefyd yn ymwybodol o'r her o gyfleu'r brwdfrydedd yma i'r cynulleidfaoedd yn yr eglwysi ar lawr gwlad. Mewn dyddiau digalon, mae'r Ffordd yn cynnig modd i adfywio ein ffydd a meithrin yr hyder i fynd â'r efengyl i'n cymunedau.

Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Wasg Morgannwg, 27 Ystad Ddiwyd. Mynachlog Nedd, Castell-nedd, SA10 7DR. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.

PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 149 | Rhif 41 | Hydref 6, 2016 | 50c.

CAPELI GWAG: Cyngor yn galw am Strategaeth Genedlaethol

Ar draws ein gwlad mae capeli, eglwysi ac adeiladau mawr eraill yn wag ac yn mynd a'u pen iddynt. Dyna ysgogodd Cyngor Sir Gaerfyrddin i alw ar Lywodraeth Cymru i lunio strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael â'r broblem. Mae'r Cyngor hefyd yn galw am gyllid ychwanegol i droi'r adeiladau segur yma'n fflatiau i'w gosod ar rent neu eu gwerthu er mwyn darparu cartrefi i bobl leol.

Gofid a Gwewyr Cau'r Capel

Wrth gynnig gwelliant i Rybudd Gynnig ar y mater, dywedodd y Cynghorydd Alun Lenny: "Pan mae capel yn cau, y cyfan mae'r cyhoedd yn ei weld yw'r arwydd "Ar Werth" y tu fas i'r adeilad. Dy' nhw ddim yn gweld y gofid a'r gwewyr calon mae'r gweddill ffyddlon, dyrnaid o aelodau oedrannus rhan amlaf, yn mynd trwyddo wrth orfod dwyn yr achos i ben, am fod cynnal y capel wedi mynd yn ormod o faich." Eiliwyd y gwelliant gan y Cynghorydd Tom Defis. "Fel Cadeirydd Pwyllgor Bugeiliol Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin, rwy' mewn cysylltiad nawr â saith o eglwysi Annibynnol sy'n ystyried eu dyfodol," meddai. "Mae gofid yr aelodau ynglyn â beth all ddigwydd i'r adeilad yn achosi pryder mawr." Dywedodd y byddai'r gofid yna'n cael ei leddfu o wybod y gallai'r adeilad gael defnydd gwerthfawr trwy ddarparu cartrefi i bobol leol sy'n awchu am gartref.

Cynllunio a Cadw

Ffactor bwysig mewn newid defnydd capel neu eglwys yw'r ffaith bod cannoedd wedi cael eu cofrestru gan Cadw. "Mae'r fath adeiladau'n rhan bwysig a gweladwy o'n hanes ni fel cenedl," meddai Alun Lenny. "Ond, fel Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, mi wn o brofiad am y problemau sy'n gallu codi pan fod datblygwr am droi hen gapel neu eglwys yn fflatiau neu'n dŷ byw. O ganlyniad mae nifer yn dadfeilio, yn cael eu fandaleiddio a hyd yn oed yn cael eu rhoi ar dân."

Wrth basio'r gwelliant, cytunodd Cyngor Sir Gâr bod angen trafodaeth genedlaethol ar frys, o dan arweiniad Llywodraeth Cymru, er mwyn llunio strategaeth. Dylid gwahodd enwadau crefyddol ac eraill i ymuno yn y drafodaeth honno.

Cwrdd Chwarter Llyn ac Eifonydd yn cofio Gweinidog, Cenhadwr ac Emynydd

Cyfarfu Cwrdd Chwarter Cyfundeb Llŷn ac Eifionydd ym Maesyneuadd, Trefor, gyda Mr. Trefor W. Jones, Chwilog, yn gadeirydd a Mrs. Megan Roberts, Trefor, yn cyfeilio. Darllenwyd o Efengyl Marc pennod 16 gan Mrs. Jean Roberts ac yna fe'n harweiniodd mewn gweddi bwrpasol.

O'r Cofnodion

Nodwyd fod Capel Salem, Y Ffôr a'r Tŷ Capel ar fin cael eu gwerthu ac ystyriwyd materion ynghylch Ymddiriedolaeth Capel Newydd Nanhoron.

Deddf Tai Cymru

Darllenwyd llythyr oddi wrth Ysgrifennydd yr Undeb, Y Parchg Ddr. Geraint Tudur, yn tynnu sylw at ofynion Deddf Tai Cymru 2014 - deddf oedd yn berthnasol i Ymddiriedolwyr eglwysi Cymru. Cyn Tachwedd 2016, roedd rheidrwydd ar i ymddiriedolwyr pob mans, tŷ capel ac unrhyw dai eraill y mae eglwysi yn eu rhentu sicrhau eu bod wedi cael eu cofrestru. Dymunwyd fod llythyru holl eglwysi'r Cyfundeb yn digwydd ynghylch hynny.

Sefyllfa Anodd

Darllenwyd llythyr yn enw'r Parchg Ddr. R. Alun Evans, Llywydd yr Undeb, a'r Dr Fiona Gannon, Cadeirydd Cyngor yr Undeb, yn dweud na ellid cadarnhau enw'r Parchg Euros Wyn Jones, a enwebwyd gan Gyfundeb Llŷn ac Eifionydd yn Ddarpar-Lywydd yr Undeb - ymysg Cyfundebau eraill, "oherwydd gwrthdaro buddiannau posib rhwng dwy elusen - y Coleg a'r Undeb."

Swyddog Cynnal ac Adnoddau

Darllenwyd neges y Parchg Casi M. Jones, Swyddog Cynnal ac Adnoddau'r Undeb, yn diolch am y croeso a dderbyniodd yn y Cyfundeb ac am y sesiynau a gynhaliwyd ar gyfer yr eglwysi ym Mhwllheli, Chwilog a Threfor. Cytunwyd â'i chais i gyfarfod Pwyllgor Bugeiliol y Cyfundeb cyn y Cwrdd Chwarter nesaf. Carai hefyd dynnu sylw at 'Gynllun Y Ffordd, cynllun newydd sydd gan yr Undeb sydd i gael ei lansio ym mis Medi.

Cymru Dros Heddwch

Darllenwyd llythyr Jane Harries, Cydlynydd Cymru Dros Heddwch, yn dymuno cymorth gweinidog i wneud mewnbwn yn Ysgol Maelor, Wrecsam, ar Orffennaf 15 ar agweddau tuag at ryfel a heddwch – ddoe a heddiw. Awgrymwyd enwau rhai cyfeillion a allai fod â diddordeb.

Trosglwyddo Cadair y Cyfundeb

Mewn geiriau dethol cyflwynodd y Cadeirydd, Mr. Trefor W. Jones, gadair y

mwy ar dudalen 2

Cwrdd Chwarter Llyn ac Eifonydd yn cofio Gweinidog, Cenhadwr ac Emynydd - *parhad*

Dafydd Roberts

Cyfundeb i'w olynydd, Mr. Dafydd O. Roberts, diacon ym Maesyneuadd, Trefor. Mynegwyd diolch i Mr. Trefor W. Jones am ei arweiniad a'i hynawsedd fel Cadeirydd dros y ddwy flynedd. Dymunwyd yn dda i'r Cadeirydd newydd.

Ieuan o Lŷn

Yn ei anerchiad cyfeiriodd Mr. Dafydd O. Roberts at ddigwyddiad arbennig a fu yn y Cyfundeb ar achlysur ddathlu daugan-mlwyddiant sefydlu Cymdeithas Genhadol Llundain. Ar Orffennaf 8, 1995, adroddir fel y bu i tua chant o Annibynwyr ymgynnull yn Rehoboth, Llaniestyn, un o eglwysi'r Cyfundeb, mewn cyfarfod arbennig, a lywyddwyd bryd hynny gan Mr. Huw Williams, Bwlchtocyn, a lle'r adroddodd y diweddar Barchg. Pierce Jones, Borth-y-gest, hanes y Genhadaeth. Wedi'r oedfa yn y capel, aeth y gynulleidfa i Dy'n-y-pwll, lle ganed y cenhadwr, y gweinidog a'r bardd, y Parchg John Henry Hughes, *Ieuan o Leyn*, ar 11 Hydref 1814, Dadorchuddiwyd cofeb iddo yno gan Mrs. Ella Roberts, ac adroddwyd ei hanes gan y diweddar Barchg. Gwyn Jones, Llandudno. Soniodd fel yr addysgwyd Ieuan o Leyn yn Ysgol Botwnnog cyn mynd am gyfnod yn athro cynorthwyol i'r ysgol a gedwid gan Arthur Jones ym Mangor. Wedi bod yng Ngholeg yr Annibynwyr yn Aberhonddu, ordeiniwyd John Henry Hughes yn weinidog Llangollen ym 1843. Ym 1847, aeth yn weinidog o genhadwr i Eglwys Gynulleidfaol Demerara, Guyana, De America. Dychwelodd oddi yno, ar gyfrif afiechyd ei briod. Bu'n weinidog wedi hynny yn West Hartlepool, Horsely-upon-Tyne, Newent, a'r Cefn Mawr, ger Wrecsam. Yn Wrecsam y bu farw ar 7 Mawrth 1893. Gwnaethai enw iddo'i hun fel bardd ac emynydd. Cafodd cyfrol o'i bregethau Saesneg, *The Hand that Saves and Other Sermons,* ei gyhoeddi ym 1895. Wedi diolch i Mr. Dafydd O. Roberts am ei anerchiad diddorol, canwyd y pennill cyntaf o emyn Ieuan o Leyn, "*Wele wrth y drws yn curo.*"

Ioan W. Gruffydd,
Ysgrifennydd y Cyfundeb

Diolch yn fawr

Jacob B. Hahn

Dyma uchod oedd rhai o eiriau'r Parchg Jacob B. Hahn o Gorea ar lwyfan neuadd Dewi Sant, Caerdydd, mewn cyngerdd bythgofiadwy. Roedd mintai o dros gant o Gristnogion Corea wedi talu eu ffordd eu hunain i ddod i Gymru ar berwyl arbennig. Ar ben hynny talasant am y neuadd fel y gallai pawb a fynnai fynychu'r dathlu wneud hynny yn rhad ac am ddim. Y perwyl arbennig oedd dod i ddiolch i genedl y Cymry am anfon Robert Jermain Thomas atynt 150 o flynyddoedd yn ôl, ym 1866, i rannu'r newyddion da am Iesu Grist. Ef blannodd hedyn yr Efengyl, a dyfodd yn goeden gref yng Nghorea, o dystiolaeth a bywyd egnïol Cristnogol. Yno y mae rhai o'r eglwysi Protestannaidd a Phresbyteraidd mwyaf yn y byd ac maent yn olrhain y cychwyn i'r Cymro o Lanofer. Yr oedd elfen o anesmwythyd yn ein plith fel Cymry yn y dathliad oherwydd eu bod hwy mor ddiolchgar â ninnau yn ymwybodol o'r trai Cristnogol a'r diffyg bywyd yn ein plith.

Dim Anrhydedd

Gwir y gair a ddywed, nid oes anrhydedd i broffwyd yn ei wlad ei hun. Ychydig o sylw a roddwn ni i'n harwyr ein hunain fel cenedl yn enwedig y rhai Cristnogol. Fe'n cyfareddir gan arwyr estron y diwylliant Eingl- Americanaidd ac weithiau y mae'n cymryd pobl o'r tu allan i ddysgu i ni arwyddocâd ein harwyr brodorol. Cristion o Gymro a godwyd yn genhadwr yn Eglwys Annibynnol Llanofer oedd Robert Jermain. Ganwyd ef ar y 7fed o Fedi 1839 yn fab ieuengaf i Robert Thomas a oedd yn weinidog gyda'r Annibynwyr. Deuai ei dad yn wreiddiol o Rosllannerchrugog lle y bu o dan adain "yr hen seraff" William Williams o'r Wern un o bregethwyr mwyaf dylanwadol Cymru yn ei gyfnod. Cwmwd bychan yw'r Wern, ergyd bwa, o Rosllannerchrugog. Wedi cyfnod o hyfforddiant yn Athrofa'r Drenewydd fe'i hordeiniwyd yn weinidog i'r Arglwydd Iesu ar Eglwys Siloah, Glandŵr, Abertawe. Cynhaliwyd y cyfarfodydd ordeinio ar y 18fed a'r 19eg o Ebrill 1837. Yr oedd yn olynydd i'r Parchg D. Evans, Mynyddbychan a'r Parchg E. Griffiths, Abertawe. Parhaodd y cyfarfodydd ordeinio am ddeuddydd ac ymhlith y rhai a gymerodd ran oedd David Rees, Llanelli, T Davies, Abertawe a rhoddwyd y siars gan William Williams o'r Wern a oedd yn weinidog yn Lerpwl ar y pryd. Dim ond am ddwy flynedd y bu yng Nglandŵr cyn iddo dderbyn galwad i Eglwys Annibynnol Rhaeadr Gwy ym 1839. Oddeutu blwyddyn wedi ei ddyfodiad torrodd diwygiad grymus allan. Derbyniodd tua 100 o aelodau i'r eglwys yn y flwyddyn 1841 ac wedi hynny bu cynnydd graddol yn aelodaeth yr Eglwys. Ym 1848 wedi cyfnod o naw mlynedd symudodd i eglwys Annibynnol Llanofer, ger y Fenni. Erbyn hyn roedd Robert Jermain yn fachgen 9 oed ac yr oedd eisoes wedi dod o dan ddylanwad yr Efengyl. Bu'n dyst i bregethu grymus, gweddïo eneiniedig ac efengylu brwdfrydig a gwelodd yn ifanc pa mor bwysig oedd cenhadaeth i ffyniant achos Iesu yma yng Nghymru. Defnyddiodd Duw y dylanwadau hyn er mwyn ei alw i genhadaeth ehangach, cenhadaeth dramor. Fe'i merthyrwyd ar draeth yng Nghorea wrth roi Beibl i filwr ac yntau yn ddim ond 26 oed.

Robert Jermain Thomas

Dirgrynu

Yn y dathliad cafwyd cyflwyniadau grymus gan Sound of Wales, Côr y Brenin o Gorea, Côr Cambrensis o Gymru, tympanau a dawnswyr traddodiadol, gweddïau tairieithog cyn i'r cyngerdd/oedfa gyrraedd uchafbwynt gyda chyfnod o weddi eneiniedig gan Y Parch Jacob B. Hahn. Go brin y gwelodd Neuadd Dewi Sant y fath beth erioed wrth i weddïau'r saint atseinio'n ddiasbedain trwy'r lle yn un llif gorfoleddus. Rwy'n siŵr fod yr adeilad yn dal i ddirgrynu yn awr o ganlyniad i'r profiad.

Gwerthfawrogiad

Wrth gyfarch y gynulleidfa fawr o dros 1,600 dywedodd y Parchg Jacob B. Hahn, "Y mae'r eglwys Brotestannaidd yng Nghorea mewn dyled ysbrydol i Gymru. Y mae hyn oherwydd eu bod wedi anfon Thomas i Gorea. Gwlad oedd mewn trwmgwsg gan nad oedd wedi derbyn yr Efengyl. Ym 1866 gwaeddodd Thomas "Iesu" o'r llong General Sherman, oedd ar dân wrth iddo daflu Beiblau i'r lan. Defnyddiodd un o'r milwyr y Beibl i bapuro ei dŷ. Daeth hwnnw yn gartref i Eglwys Noltari, yr eglwys Brotestannaidd gyntaf yng Nghorea. Yr ydym ni sydd yma heddiw o Gorea yn ffrwythau Cymru, mamwlad Thomas. Yr ydym am fynegi ein diolch mawr a'n parch i Gymru ac i deulu Thomas am ei anfon i Gorea. Gweddïwn y bydd Eglwysi Cymru yn cael cip olwg o'n diolchgarwch yn ein dathlu."

Gofynnodd i'r gynulleidfa i weddïo am 2 beth. Yn gyntaf, i weddïo am uno Gogledd a De Corea fel un wlad ac yn ail, gweddïo y bydd 200 mil o bobl Cymru yn dod i gredu yn Iesu Grist. Yr oedd eu brwdfrydedd yn heintus ac yn cyffwrdd ein calonnau yn ddwfn iawn. Wrth i ninnau fyfyrio ar hanes rhyfeddol Robert Jermain dylai ein hysbrydoli i weld unwaith eto bwysigrwydd cenhadu ac efengylu a rhannu'r newyddion da am Iesu yn ein gwlad ein hunain. O na foed i ni, Gristnogion Cymru gael ein tanio gan yr hanes hwn i fynd allan i'n cymunedau ac at ein cyd-Gymry i rannu cariad Duw yn Iesu.

Barn Annibynnol

NEWID!

Yn rhyfeddu wrth ddarllen yn ddiweddar am gapel sy'n dal i ddefnyddio hen lyfr emynau'r enwad mae'n perthyn iddo. Ys gwn i a oes capeli eraill nad ydynt wedi newid i *Caneuon Ffydd* eto?



Mae'r cyndynrwydd i newid yn rhywbeth sy'n perthyn i'r byd a'r betws, wrth gwrs. Yn cofio bod mewn cyfarfod un tro lle'r oedd person yn gwrthwynebu unrhyw newid i batrwm ysgolion lleol. Eto i gyd, bu'r union berson yn ddigon parod i newid ei arferion aredig dros y blynyddoedd, gan roi heibio'r ceffylau gwedd a throi at yr offer amaeth mwyaf modern!

Elastig

Bron yn ddieithriad, mae gwrthwynebiad i unrhyw newid ac yn aml iawn y mae'n wrthdaro. Hyd yn oed pan mae'n gwbl amlwg fod newid yn angenrheidiol, ein tuedd yw dilyn y llwybr rhwyddaf a gwneud y peth lleiaf trafferthus, a glynu at y status quo! Gadewch lonydd i ni. Gadewch i ni fod. Does dim blynyddoedd mawr o'n blaenau. Gadewch i'r genhedlaeth nesaf ddelio ag unrhyw newid.

Yn cofio gweinidog newydd un tro'n addo wrth ei aelodau y byddai'n gwneud ei orau drostynt ond iddynt gofio nad elastig mohono! Mae lle i ofni bellach fod yr elastig yn tynhau a bron â thorri yn achos rhai o'n gweinidogion prin a hynny'n aml oherwydd ein cyndynrwydd ni i addasu a newid a bod yn hyblyg i gwrdd â'r amseroedd.

Digyfnewid

Mae Duw'n ddigyfnewid, ond dyw hynny ddim yn golygu na ddylai'r capel neu'r eglwys beidio â newid. Dim o gwbl! Y gwir yw bod y capeli a'r eglwysi mwyaf effeithiol yn newid yn gyson. Yr unig beth sy'n newid pan nad ydyn ni'n barod i newid yw'r broblem sy'n mynd yn waeth! Meddyliwch am y trefi a'r pentrefi yng Nghymru heddiw y gwyddom yn dda yn ein calon fod angen newid sylfaenol i'r drefn er mwyn i'r addoli a'r cenhadu fod yn fwy effeithiol a dylanwadol. Y sefyllfaoedd hynny lle mae capelyddiaeth yn rhemp ac yn faen tramgwydd i ffyniant 'yr eglwys'. Tueddwn i siarad am y mater ond gwastraff ar amser yw hynny heb wneud unrhyw beth yn ei gylch. Mae osgoi newid angenrheidiol yn brifo'r 'eglwys'. Parhau i wanychu dylanwad ac effeithioldeb yr eglwys mae glynu at hen ddulliau.

Addasu a Phontio

Onid yw'n cyndynrwydd i newid ac addasu'n golygu'n bod yn esgeuluso rhan bwysig o'n cenhadaeth, yn enwedig ymhlith y to iau? I ba raddau rydym ni, er enghraifft, yn elwa ar y ffaith fod canran y plant 5-15 oed sy'n medru siarad Cymraeg yng Nghymru wedi dyblu er 1981? I ba raddau hefyd y defnyddiwn beibl.net, y fersiwn sgyrsiol ac anffurfiol ei naws o'r Ysgrythur sydd mor hawdd ei ddarllen, i bontio rhwng capel a chymuned?

Arloesi Heddiw

Diolch byth fod yna gapeli sy'n barod i newid i gwrdd â gofynion cyfoes. A chymwynas fawr â ni fyddai cynnwys yn y Pedair Tudalen gyfres o astudiaethau achos i ddangos i ni sut mae rhai o'r capeli hyn yn arloesi heddiw er mwyn i ni ddysgu oddi wrthynt. Oes, mae gwir angen newid. Wedi dweud hynny, mae lle i lynu hefyd – nid wrth hen rigolau ond wrth yr hyn sy'n wirioneddol bwysig, sef dod yn un teulu a 'byw i Grist'.

RAC

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

CYMANFA ANNIBYNWYR MÔN

Daeth Annibynwyr Môn ar ei gilydd unwaith eto eleni i glodfori'r Arglwydd mewn gair a chytgord. Arweinydd y gân oedd Mrs Catherine Blackwell a'r organyddes oedd Mrs. Margaret Roberts. Llywydd y gweithgareddau oedd Mrs Catherine Evans. Dwy o aelodau Moreia. Gwalchmai, sef Morfydd ac Edna Jones a arweiniodd y gynulleidfa mewn defosiwn. Cafwyd eitemau bendithiol iawn gan Lleisiau Llannerch ynghyd ag unawd gan Margaret Hughes a Heulwen Price dan arweiniad Grês Pritchard. Talwyd y diolchiadau gan Gadeirydd y Pwyllgor y Parchedig Ddoethur Dafydd Wyn Wiliam i bawb a ysgwyddodd y baich i wneud y Gymanfa yn llwyddiant yn enwedig Mrs Margaret Thomas am ei gwaith ffyddlon i'r Gymanfa ers dros naw mlynedd.

Newidiadau

Y flwyddyn nesaf bydd y Gymanfa Sirol yn cael ei chynnal gan aelodau tair Eglwys Annibynnol Caergybi.

Wedi pymtheg mlynedd o ymroddiad wrth y llyw fel Cadeirydd y Pwyllgor, cyhoeddodd Mr William ei fod ef a'r ysgrifenyddes Mrs Margaret Thomas yn gorffen eu swyddogaeth ar nodyn llwyddiant Cymanfa Moreia. Dymuna dilynwyr ffyddlon y Gymanfa Ganu Sirol ddiolch yn gynnes iawn i'r ddau am ysgwyddo y gweithgareddau a chynorthwyo y capeli i drefnu eu rhaglen oddi mewn i'r dosbarthiadau. Offrymwyd y fendith gan y Parchedig Richard Williams Moreia.

Pwyllgor Newydd

Dewiswyd Mrs Catherine Evans Moreia i ymgynnull ynghyd cynrychiolwyr yr Eglwysi i greu pwyllgor newydd. Taer erfynnir ar bawb sydd â chefndir cerddorol, cariad at ganu mawl , aelodau'r Cwrdd Chwarter a chyn ddilynwyr ffyddlon y Gymanfa Ganu i wneud pob ymdrech i ddod i'r pwyllgor. 'Mewn nifer mae nerth' " Dowch hen ac ifanc dewch **at Iesu ..**"

(Cynhaliwyd y Gymanfa eleni yng nghapel Moreia, Gwalchmai nos Sul Medi18 am bump o'r gloch.)

Donald Glyn Pritchard,
Capel Ifan.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o Gyngor yr Undeb yng Ngregynog ar **ddyddiau Gwener a Sadwrn, 7-8 Hydref.**

Edrychwn ymlaen at gael croesawu cynrychiolwyr y Cyfundebau yno.

Geraint Tudur

Opera Porth Tywyn
yn cyflwyno Saint-Saens
Samson a Delilah
Neuadd Goffa Porth Tywyn
Hydref 19, 21, a 22 am 7pm
Tocynnau: 01554 835659

Cynhelir
Cyfarfod Sefydlu
Y Parchedig Carwyn Siddall
yn weinidog ar
Eglwys yr Annibynwyr, Y Bala
ac i groesawu'r Eglwys yn rhan o Ofalaeth Bro Llanuwchllyn a'r Cylch
Ddydd Sadwrn, Hydref 8fed, 2016 am 2.30 o'r gloch
yng Nghapel yr Annibynwyr, Y Bala.
Croeso cynnes i bawb